PANEL LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL

DYDD IAU, 7 MEHEFIN 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Congreve, Driscoll, Lent, Lister a/ac Graham Thomas |

1 : PENODI CADEIRYDD

Yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 24 Mai 2018, cymeradwyodd y Cyngor benodiad y Cynghorydd Sarah Merry fel Cadeirydd Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

2 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 24 Mai 2018, cymeradwyodd y Cyngor y canlynol:

Aelodaeth:
Y Cynghorwyr Dilwar Ali, Wendy Congreve, Sean Driscoll, Sue Lent, Ashley Lister, Sarah Merry a Graham Thomas

Cylch Gorchwyl:

(a) Cynghori'r Cyngor ar benodiadau a diswyddo Llywodraethwyr i'r llefydd hynny a ddyrennir i'r Awdurdod Lleol;

(b) Ystyried a gwneud penderfyniadau ynghylch recriwtio, hyfforddi a gwirio Llywodraethwyr arfaethedig ac unrhyw faterion eraill all gael eu cyfeirio at y Panel gan y Cabinet neu Bwyllgor y Cyfansoddiad; a

(c) Bydd gofyn i bob Aelod o'r Pwyllgor ddilyn hyfforddiant perthnasol i'w galluogi nhw i gyflawni eu dyletswyddau'n iawn.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

4 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| **Cynghorydd** | **Eitem** | **Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Driscoll | Eitem 8a – Enwebiadau i swyddi gwag Llywodraethwyr presennol Awdurdodau Lleol | Buddiant Personol ac Andwyol fel ymgeisydd ar gyfer Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Danescourt. |

| | | |
|---|---|---|
| Alan Evans | Eitem 8b – Enwebiadau'r dyfodol i swyddi gwag Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd y Dwyrain | Buddiant personol oherwydd mai un o'r ymgeiswyr yw Cadeirydd y Llywodraethwyr. |

5 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2018 gan y Cadeirydd ac fe'u llofnodwyd fel cofnod cywir.

6 : SWYDDI GWAG LLYWODRAETHWR YSGOL AWDURDOD LLEOL

Derbyniwyd a nodwyd y rhestr o swyddi gwag ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol yn yr Awdurdod Lleol.

7 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD - Y dylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth na ddylid ei chyhoeddi drwy baragraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

8 : ENWEBIADAU AR GYFER SWYDDI GWAG LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL

*(Datganodd y Cynghorydd Driscoll fuddiant personol ac andwyol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod yn ystod ystyriaeth ei gais. Datganodd Alan Evans fuddiant personol ond arhosodd yn y cyfarfod)*

Derbyniodd ac ystyriodd y Pwyllgor geisiadau am swyddi gwag presennol a'r dyfodol ac ystyriodd bob cais yn erbyn y meini prawf, gan baru sgiliau â'r swyddi gwag.

Dymunodd y Pwyllgor cofnodi'r gwelliant o ran cyflawnder ceisiadau gan Aelodau Etholedig, a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith wrth godi ymwybyddiaeth am sylwadau blaenorol y panel.

PENDERFYNWYD – yr argymhellir i'r Cyngor wneud y canlynol

1. cymeradwyo argymhellion y Panel i benodi'r unigolion canlynol i swyddi gwag presennol Cyrff Llywodraethu yr Awdurdod Lleol fel a ganlyn:

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau'r Swydd Wag** | **Penodiad** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Adamsdown | Adamsdown | 18/04/2018 | Y Cyng Owen Jones |
| Ysgol Uwchradd Cantonian | Y Tyllgoed | 06/03/2018 | Jean Fudge |
| Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin | Llanisien | 01/04/2018 | Vicki Woods |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Danescourt | Llandaf | 26/07/2017 | Y Cyng Sean Driscoll |
| Ysgol Gynradd Lansdowne | Treganna | 19/09/2017 | Michelle Townsend |
| Ysgol Gynradd Tredelerch | Tredelerch | 03/02/2018 | Stella Dunstone |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Patrick | Grangetown | 16/09/2016 | Nasir Adam |
| Ysgol Gynradd Trelái | Caerau | 09/09/2017 | Geoff Morgan |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | 04/10/2016 | Eleri Allsobrook |

2. cymeradwyo argymhellion y Panel i benodi'r unigolion canlynol i swyddi gwag y dyfodol ar Gyrff Llywodraethu yr Awdurdod Lleol fel a ganlyn:

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau'r Swydd Wag** | **Penodiad** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Sblot | 24/10/2018 | Gill Dallow |
| Ysgol Uwchradd Cantonian | Y Tyllgoed | 26/09/2018 | Alvyn Morgan |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi | Llys-faen | 17/09/2018 | Kath Brown |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | Tredelerch | 24/10/2018<br>24/10/2018 | Barbara Cooke<br>Chris Taylor |
| Ysgol Gynradd Llanedern | Pentwyn | 23/07/2018 | Nicola Whitefield |
| Ysgol Gynradd Moorland | Sblot | 18/06/2018 | Rachel Barnett |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | Caerau | 24/09/2018<br>24/09/2018 | Pamela James<br>John Skelton |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | Y Tyllgoed | 27/06/2018<br>24/10/2018 | Patricia Thomas<br>Matthew Cook |
| Ysgol Uwchradd Gyfun Radur | Radur A Phentre-Poeth | 26/09/2018 | John Wilson |
| Ysgol Gynradd y Rhath | Plasnewydd | 24/07/2018 | Y Cyng Peter Wong |
| Ysgol Gynradd Severn | Glan-yr-afon | 27/06/2018<br>26/09/2018 | Christine Newman<br>Gareth Jones |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant | Grangetown | 03/07/2018 | Gordon Bell |

| Ysgol | Ward | Dechrau'r Swydd Wag | Penodiad |
|---|---|---|---|
| Paul | | | |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf | Llandaf | 26/09/2018 | Sarah Cullen |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | Y Tyllgoed | 17/09/2018<br>17/09/2018 | Ruth Parry<br>Evan Morgan |

9 : DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

PENDERFYNWYD – Cytunwyd ar ddyddiad y cyfarfod nesaf fel dydd Llun 10 Medi 2018 am 5.00pm yn Ystafell Bwyllgora 2. Byddai dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu cadarnhau gyda'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 21 Mehefin.

10 : CYDNABYDDIAETH

Dywedodd Alan Evans, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd mai hwn oedd ei gyfarfod olaf. Diolchodd i'r Aelod Cabinet, Aelodau'r Panel a'r swyddogion arweiniol am roi proses gadarnach ar waith ar gyfer penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol a'r llwyddiant a ddaeth yn sgil y broses newydd o ran paru ymgeiswyr a'u sgiliau a'u harbenigedd er mwyn bodloni gofynion Cyrff Llywodraethu ac ysgolion.

Diolchwyd Alan gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Sarah Merry, am ei gefnogaeth gadarnhaol i'r Panel, a'r wybodaeth a'r arbenigedd sylweddol y mae wedi'u darparu i'r Cyngor a Gwasanaethau Llywodraethwyr dros nifer o flynyddoedd. Ar ran y Pwyllgor a'r Cyngor dymunodd y gorau iddo am ei ymddeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.15 pm